# JONES, ELIAS HENRY (1883 - 1942), gweinyddwr ac awdur

**Enw:** Elias Henry Jones
**Dyddiad geni:** 1883
**Dyddiad marw:** 1942
**Priod:** Mair Olwen Jones (née Evans)
**Rhiant:** Annie Jones (née Walker)
**Rhiant:** Henry Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinyddwr ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
**Awdur:** Emyr Gwynne Jones

Ganwyd yn Aberystwyth 21 Medi 1883, mab hynaf Syr Henry Jones ac Annie Walker. Addysgwyd ef yn ysgol uwchradd Glasgow, Prifysgol Glasgow, Prifysgol Grenoble a choleg Balliol, Rhydychen. Wedi cael ei alw i'r Bar, llwyddodd yn yr arholiadau ar gyfer gradd weinyddol Gwasanaeth Gwladol yr India, ac ym 1905 aeth i Bwrma i wasanaethu. Ymddeolodd ym 1922, ac yntau ar y pryd yn dal swydd Comisiynydd Cyllidol; daeth i fyw i Fangor, Arfon, ac am y deng mlynedd nesaf bu ganddo ddiddordeb effro yn y mudiad heddwch rhyngwladol ac mewn addysg yng Nghymru. O 1927 hyd 1933 ef ydoedd golygydd *The Welsh Outlook*. Ym 1933 penodwyd ef yn gofrestrydd coleg y Brifysgol, Bangor, swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth 22 Rhagfyr 1942.

Adwaenir E. H. Jones yn orau fel awdur *The Road to Endor*, clasur o hanes dianc trwy ystryw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ymunodd Jones â Byddin yr India a dyrchafwyd ef yn swyddog yn union cyn iddo gael ei gymryd yn garcharor gan y Twrciaid wedi cwymp Kut-el-Amara. Yna gorfu iddi ymuno mewn ymdaith o saith can milltir i Yozgad - ymdaith a fu'n angau i un o bob saith o'r carcharorion. Wedi bod yn garcharor am dair blynedd, rhyddhawyd ef a chydymaith iddo, ill dau'n ffugio bod yn wallgof, dim ond pythefnos cyn y Cadoediad. Printiwyd y llyfr ddwy ar bymtheg o weithiau, ac yna bu iddo dri argraffiad.

Priododd E. H. Jones ym 1913 Mair Olwen merch ieuengaf y Dr. Griffith Evans, Brynkynallt, Bangor.

## Awdur

**Emyr Gwynne Jones**, (1911 - 1972)

## Ffynonellau


*Who's who in Wales*, 3ydd argr.

gwybodaeth gan Mrs. Jean Ware, merch E. H. Jones


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 7168126

Wikidata: Q5321903


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu